

Cylch Gorchwyl

Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru

Pwrpas Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru (WDAIIN) yw darparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a chyfarwyddiaeth rhwng bob partner mewn perthynas â dadansoddi data. Darparu goruchwyliaeth er mwyn galluogi arloesedd a gwelliant a gefnogir gan ddata a gwaith dadansoddol ar draws Cymru gyfan, darparu cefnogaeth i waith partneriaeth lleol a fydd yn cefnogi cymunedau diogel, cryf a mwy hyderus. Mae WDAIIN yn un o rwydweithiau partner y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel ac fe'i cefnogir gan Dîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.

Amcanion WDAIIN yw:

- Datblygu dull Hwb/Tîm Data a Dadansoddi Amlasiantaeth Cymru Gyfan, gan gynnwys datblygu achosion busnes ar gyfer buddsoddiad amlasiantaeth mewn dadansoddiad partneriaeth a sefydlu trefniadau llywodraethu hirdymor priodol;
- Darparu cefnogaeth a chynnyrch gwybodaeth fusnes amlasiantaeth ar gyfer partneriaethau gan weithio i fynd i'r afael â thrais difrifol a throedd trefnedig, yn ogystal â mathau eraill o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a flaenoriaethir ar draws Cymru gyfan;
- Sefydlu WDAIIN fel rhwydwaith partner allweddol i'r Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel dan y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, gan ddarparu o leiaf rhan o Raglen y Bwrdd sy'n gysylltiedig â gwaith gwybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Cefnogi 'Aseidiadau Strategol' Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac ymdrechu i sicrhau gwaith comisiynu a chynhyrchu gwybodaeth sy'n cael eu prif ffrydio a'u gweithredu'n barhaus, ynghyd â'u halinio'n briodol gydag Aseidiadau Lles, Aseidiadau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a rhaglen 'ddigideiddio' Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi'r egwyddor 'seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i arwain gan wybodaeth' a'i weithrediad o fewn gwaith partneriaeth lleol/rhanbarthol gan sicrhau adnoddau cynaliadwy;
- Datblygu a darparu cynllun gwaith WDAIIN;
- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg a allai gael effaith ar ddarpariaeth gwaith diogelwch cymunedol, yn arbennig mewn perthynas â dadansoddi data ar draws Cymru.
- Cynghori, hysbysu a dylanwadu ar Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU (Swyddfa Gartref, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder) a chyrrff cynrychioli o fewn llywodraeth leol, yr heddlu a chyfiawnder troseddol ac ati drwy'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel.

- Nodi, dathlu a hyrwyddo arferion effeithiol ac annog pobl i fabwysiadu, uwchraddio a phrif ffrydio mentrau sydd wedi bod yn llwyddiannus.
- Nodi a datblygu cyfleoedd gydag asiantaethau a sefydliadau amrywiol ar draws Cymru mewn perthynas â datblygu arferion rhannu a defnyddio cyfresi data (e.e. data Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, data Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, data Cyfiawnder Ieuencid, data Addysg a'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol);
- Gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel a phartneriaid diogelwch cymunedol eraill yng Nghymru, cyflwyno sylwadau a rannir ar faterion sy'n peri pryder fel sy'n briodol ac amlygu pwysigrwydd data a dadansoddi i arwain ar arloesedd a gwelliannau mewn perthynas â diogelwch cymunedol.

Aelodau:

Bydd yr Aelodau'n cynnwys ymarferwyr ac arweinwyr strategol. Gall unrhyw un sy'n ymarferydd neu'n arweinydd strategol, yn ymdrin â data a gwaith dadansoddol ac yn awyddus i ymuno fod yn aelod. Bydd ysgrifenyddiaeth Tîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn gyfrifol am gynnal y rhestr aelodau.

Gweler y rhestr isod o sefydliadau sydd eisoes yn aelodau neu wedi derbyn gwahoddiad i ymuno:

- | | |
|--|--|
| • Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd | • Awdurdodau Lleol |
| • Yr Heddlu | • Iechyd |
| • Y Gwasanaeth Prawf | • Iechyd y Cyhoedd |
| • Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi | • Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru |
| • Rheoli Troseddwy'r Integredig | • Prifysgolion |
| • Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid | • Llywodraeth Cymru. |
| • Uned Atal Trais | • Senedd |
| • Data Cymru | • Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru (ysgrifenyddiaeth) |
| • Gwasanaeth Tân ac Achub | |

Gellir gwahodd aelodau eraill drwy gytundeb, gan gynnwys ar gyfer cyfarfodydd neu eitemau rhaglen arbennig.

Gweithrediad WDAIIN:

- Bydd WDAIIN yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.
- Bydd WDAIIN yn enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd o fewn ei aelodaeth bob blwyddyn.
- Gellir gwneud penderfyniadau rhwng cyfarfodydd drwy ddulliau electronig.
- Bydd Aelodau WDAIIN yn gyfrifol am ddarparu yn erbyn blaenoriaethau WDAIIN.
- Gall Tîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru gysylltu ag Aelodau WDAIIN unigol am gyngor a chymorth rhwng cyfarfodydd.

Bydd Tîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn darparu'r ysgrifenyddiaeth yn unol â'r cytundeb â bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Bydd yr holl bapurau'n cael eu rhannu wythnos cyn y cyfarfod lle bo modd.

Bydd WDAIIN yn rhoi gwybod am gynnydd ac yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel. Bydd y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel yn diweddarau Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, Plismona yng Nghymru (sy'n cynnwys pob Comisiynydd a Phrif Gwnstablaid), fforymau swyddogion a gwleidyddol CLILC a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn dilyn hynny.

Disgwylir i aelodau WDAIIN ddatgan unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau a allai godi yn ystod gweithrediadau WDAIIN a'r rhaglen waith.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r WDAIIN yn gyfrifol am:

- faethu cydweithio
- gwaredu rhwystrau i ddarparu, mabwysiadu a defnyddio WDAIIN yn llwyddiannus
- sicrhau bod WDAIIN yn canolbwyntio ar y cwmpas, canlyniadau a'r buddion cytunedig
- monitro a rheoli'r ffactorau y tu hwnt i reolaeth WDAIIN sy'n hanfodol ar gyfer ei lwyddiant.

Bydd Cadeirydd WDAIIN yn:

- nodi dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd
- cytuno ar y rhaglen er mwyn gallu ei rhannu ynghyd â'r papurau 7 diwrnod cyn y cyfarfodydd
- cynrychioli WDAIIN mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol yn ôl y gofyn.

Bydd Tîm y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel yn:

- darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i WDAIIN
- rhannu'r rhaglen a'r papurau 7 diwrnod cyn y cyfarfod
- cynnal y rhestr aelodau a'r rhestr mynychwyr.

Bydd aelodau'r WDAIIN yn ymrwmo i:

- fynyachu cyfarfodydd a drefnwyd
- hyrwyddo WDAIIN o fewn a thu hwnt i'w hardaloedd gwaith
- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws aelodau WDAIIN
- gwneud penderfyniadau'n brydlon a chymryd camau er mwyn osgoi oedi mewn blaenoriaethau WDAIIN
- hysbysu aelodau WDAIIN, cyn gynted ag sy'n ymarferol, os bydd unrhyw faterion yn codi a allai gael effaith ar ddatblygiad WDAIIN neu waith cysylltiedig arall drwy'r Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel.
- mynychu pob cyfarfod ac enwebu dirprwy lle bo angen.

Bydd aelodau'r WDAIIN yn disgwyl:

- bod pob aelod yn derbyn gwybodaeth lawn, gyson ac ystyrllon yn brydlon
- cael amser rhesymol i wneud penderfyniadau allweddol
- cael rhybudd am risgiau a materion posibl a allai gael effaith ar y prosiectau a'r rhaglen waith wrth iddynt godi
- trafodaethau agored ac onest, heb droi at unrhyw arddeliadau camarweiniol
- 'gwiriadau iechyd' parhaus i gadarnhau statws cyffredinol ac 'iechyd' y rhwydwaith.

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Diwygiadau a wnaed	Gan bwy	Cylchrediad
1	Cylch Gorchwyl newydd drafft gan y tîm Cymunedau Mwy Diogel	SC/ER	WDAIIN
2	Fersiwn ddiwygiedig yn dilyn adborth gan WDAIIN	SC	WDAIIN